

Cymun Bendigaid ar Gân

**Sul Gwaddol Ganol Haf**

25 Mehefin 2023 am 9.15am

**Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor**

Saint Deiniol's Cathedral in Bangor

# *Croeso i Gadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.*



Rydych chi'n sefyll rwan lle safodd Deiniol bron i fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn 525, bu iddo gynnull o'i gwmpas gymuned lawn ffydd, gobaith a chariad, gan godi o'i chwmpas ffens gyll—y **bangor** gwreiddiol—iddi'n gysgod ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch chwithau, hefyd, eich cofleidio yma gan yr un ffydd, gobaith a chariad a gyhoeddir gennym heddiw ac sy'n ein cyfareddu o hyd.

# *Yn Cymun hwn...*

**Yn y Cymun hwn byddwn yn cwrdd â Christ mewn bara a gwin, ei Gorff a'i Waed ef gyda ni.**

1 Wrth inni ymgynnull, byddwn yn paratoi ein hunain i gwrdd â Christ trwy gyffesu ein pechodau – y ffyrdd yr ydym wedi galaru Duw yn ein bywydau – ac yn derbyn gollyngdod, sef sicrwydd o faddeuant Duw.

2 Yna rydyn ni'n gwrando ar ddarlleniadau o'r Beibl, gan ganfod yno arweiniad, her, cysur a newydd da gan Dduw. Ymatebwn trwy gyhoeddi ein ffydd yn y Drindod Sanctaidd a chynnig i Dduw ein gweddi dros bawb mewn angen.

3 Yn galon i'n haddoliad heddiw, byddwn yn cymryd bara a gwin, byddwn yn gofyn am fendith gweddnewidiol Duw arnynt, yn torri'r bara, ac – fel aelodau o Gorff toredig, trwsiedig Crist – byddwn yn Cymuno.

4 Daw ein haddoliad i ben wrth inni dderbyn bendith Duw, yn gynhaliaeth inni wrth ymadael.

Waeth pa mor bell yn ôl y gwnaethoch hynny ddiwethaf, mae croeso i chi Gymuno yma heddiw. Os hoffech chi Gymuno am y tro cyntaf, neu gael eich Bedyddio, siaradwch ag aelod o dîm yr Gadeirlan.

Ceir ffydd, gobaith a chariad yma i bawb.

## Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad heddiw. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrio yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llu'r nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaid; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddnewid, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✠. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip coch**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

## Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copïau print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Os oes angen waffer heb glwten arnoch (yn cydymffurfio â'r gofyniad canonaidd am 20 rhan o glwten fesul miliwn), rhowch wybod i stiward.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

## Plant a theuluoedd ifanc

Ceir gweithgareddau a chrefftau yn ystod y Cymun Bendigaid ar Gân bob dydd Sul yng Nghapel Mair, ar gyfer unrhyw blant hyd at 11 oed. Mae'r crefftau a'r gweithgareddau yn amrywiol, gydag o leiaf un yn ymwneud â thema'r Cymun ei hun. Caiff y gofod hwn yn cael ei staffio gan oedolion cyfrifol, a bydd plant dros 5 oed yn gallu mynd a dod. Bydd plant yn parhau i fod yn gyfrifoldeb eu rhieni neu eu gwarcheidwaid bob amser. Yn y lle cyntaf, dylai plant sy'n 4 oed ac iau fod yng nghwmni rhiant neu warcheidwad oni bai bod trefniant ymlaen llaw gyda'r rhai ar ddyletswydd wedi'i wneud.

## O'r Ddarllenfa a Buchedd Bangor

Pob wythnos, anfonir ebost **O'r Ddarllenfa** at danysgrifwyr gyda hysbysiadau ynghyd â delweddau wythnosol o fywyd y Gadeirlan a'r Ardal Weinidogaeth. Os nad ydych chi eisoes yn danysgrifiwr, dilynwch y cod QR, neu ewch i **cadeirlan.eglwysyngnghymru.org.uk/Darllenfa/**

**Buchedd Bangor** yw ein cylchgrawn rheolaidd, sy'n cynnig cymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd. Mynnwch gopi heddiw, neu ddilynwch y cod QR i ddarllen arlein.

**Buchedd Bangor**

**O'r Ddarllenfa**
**From the Lectern**

# Trefn y gwasanaeth

Wedi'r hysbysiadau, codwn ar ein traed ar ganiad y gloch

## Cynnull

### Emyn



**Yr Arglwydd yw fy mugail i,**
**ac ni bydd eisiau arnaf.**
**Mewn porfa fras gorffwyso a gaf;**
**ger dyfroedd braf gorweddaf.**

**Mae yn f'adfywio yn ddi-frys**
**a'm tywys yn garuaidd.**
**Hyd ffyrdd cyfiawnder mae'n fy nwyn,**
**er mwyn ei enw sanctaidd.**

**Mewn dyffryn tywyll du ni chaf**
**nac anaf byth na dolur;**
**a thi o'm blaen, fe rydd dy ffon**
**a'th wialen dirion gysur.**

**Arlwyi fwrdd o'm blaen, a'm llu**
**gelynion i yn gwylio,**
**eneinio 'mhen ag olew glân.**
**Mae 'nghwpan yn gorlifo.**

**Daioni a thrugaredd fydd**
**o'm hôl bob dydd o'm bywyd;**
**ar hyd fy oes mi fyddaf byw**
**yn nhŷ fy Nuw mewn gwynfyd.**

**Geiriau**
Salm 23
**Efelychiad**
Gwynn ap Gwilym (1950-2016)
**Cerddoriaeth | "Dominus Regit Me"**
John Bacchus Dykes (1823-1876)

Parhawn ar ein traed tan ddiwedd y Weddi Gasgl

## Cyfarchiad

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.
**Amen.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

"Yr wyf yn dyheu am dy iachawdwriaeth, O Dduw, ac yn ymhyfrydu yn dy gyfraith."

## Cyffes

Gan gynnull i ddathlu'r Cymun Bendigaid er gogoniant i Dduw, ymbaratown gan gyffesu ein pechodau,

gan ymddiried yn naioni ein Tad trugarog,

wedi'n cynnal gan addfwynder Iesu, ein cyfaill,

ac wrth weld ein bywydau o'r newydd yn llewyrch
yr Ysbryd bywiol.

Dad nefol,
**yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,**
**a heb wneud yr hyn a ddylem.**
**Mae'n wir ddrwg gennym,**
**ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.**
**Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,**
**maddeua inni'r cwbl a aeth heibio**
**ac arwain ni yn ei ffordd ef**
**i gerdded fel plant y goleuni.**
**Amen.**

Yr hollalluog Dduw a drugarhao wrthych,
✠ maddau ichwi a'ch rhyddhau o bechod,
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol.
**Amen.**

Parhawn ar ein traed

## Kyrie eleison

Arglwydd trugarha. Crist trugarha. Arglwydd trugarha.

**Cerddoriaeth**
**Cymun Sant Dogfan**, Brian Evans

Parhawn ar ein traed

## Gweddi Gasgl

Gweddïwn.

O Dduw, erfyniwn fod i'th dosturi gwastadol lanhau ac amddiffyn dy Eglwys; a chan na all hi barhau mewn diogelwch heb dy nodded di, cadw hi byth trwy dy gymorth a'th ddaioni; trwy Iesu Grist ein Gwaredwr.
**Amen.**

Eisteddwn

# *Gair*

## Salmyddiaeth



℣ Datgana'm genau d'air, fy Nuw; cyfiawnder yw dy ddeddfau.

℟ **Datgana'm genau d'air, fy Nuw; cyfiawnder yw dy ddeddfau.**

Doed fy llef atat, O Dduw; rho imi ddeall yn ôl dy air.

Doed fy neisyfiad atat; gwared fi yn ôl dy addewid.

℟ **Datgana'm genau d'air, fy Nuw; cyfiawnder yw dy ddeddfau.**

Bydd fy ngwefusau'n tywallt moliant am iti ddysgu i mi dy ddeddfau.

Bydd fy nhafod yn canu am dy addewid, oherwydd y mae dy holl orchmynion yn gyfiawn.

℟ **Datgana'm genau d'air, fy Nuw; cyfiawnder yw dy ddeddfau.**

Bydded dy law yn barod i'm cynorthwyo, oherwydd yr wyf wedi dewis dy ofynion.

Yr wyf yn dyheu am dy iachawdwriaeth, O Dduw, ac yn ymhyfrydu yn dy gyfraith.

℟ **Datgana'm genau d'air, fy Nuw; cyfiawnder yw dy ddeddfau.**

Gad imi fyw i'th foliannu di, a bydded i'th farnau fy nghynorthwyo.

Euthum ar gyfeiliorn fel dafad ar goll; chwilia am dy bobl, oherwydd nid anghofiwn dy orchmynion.

℟ **Datgana'm genau d'air, fy Nuw; cyfiawnder yw dy ddeddfau.**

**Salm 119:169-176**
**Cerddoriaeth**
Simon Ogdon

## Darlleniad

Darlleniad o Lythyr yr Apostol Paul at yr Effesiaid.

Garedigion: Gan hynny, chwi oedd gynt yn Genhedloedd o ran y cnawd, chwi sydd yn cael eich galw yn ddienwaededig gan y rhai a elwir yn enwaededig (ar gyfrif gwaith dwylo dynol ar y cnawd), chwi, meddaf, cofiwch eich bod yr amser hwnnw heb Grist, yn ddieithriaid i ddinasyddiaeth Israel, yn estroniaid i'r cyfamodau a'u haddewid, heb obaith a heb Dduw yn y byd. Ond yn awr, yng Nghrist Iesu, yr ydych chwi, a fu unwaith ymhell, wedi eich dwyn yn agos trwy waed Crist. Oherwydd ef yw ein heddwch ni. Gwnaeth y ddau, yr Iddewon a'r Cenhedloedd, yn un, wedi chwalu trwy ei gnawd ei hun y canolfur o elyniaeth oedd yn eu gwahanu. Dirymodd y Gyfraith, a'i gorchmynion a'i hordeiniadau. Ac felly, i wneud heddwch, creodd o'r ddau un ddynoliaeth newydd ynddo ef ei hun, er mwyn cymodi'r ddau â Duw, mewn un corff, trwy'r groes; trwyddi hi fe laddodd yr elyniaeth. Fe ddaeth, a phregethu heddwch i chwi y rhai pell, a heddwch hefyd i'r rhai agos. Oherwydd trwyddo ef y mae gennym ni ein dau ffordd i ddod, mewn un Ysbryd, at y Tad.

Clywch air bywyd i'n byd.
**Diolch a fo i Dduw.**

**Effesiaid 2:11-18**

*Codwn ar ein traed, gan droi i wynebu Llyfr yr Efengylau yng Nghorff yr Eglwys*

## Efengyl



℣ Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. ℟ **Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.** ℣ Yn awr, yng Nghrist Iesu, yr ydych chwi, a fu unwaith ymhell, wedi eich dwyn yn agos trwy waed Crist. ℟ **Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.** ℣ Bydd mwy o lawenydd yn y nef am un pechadur sy'n edifarhau nag am naw deg a naw o rai cyfiawn nad oes arnynt angen edifeirwch. ℟ **Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.
**A'th gadw di yng ngariad Crist.**

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✠ Sant Luc.
**Gogoniant i ti, O Grist.**

Bryd hynny: Yr oedd yr holl gasglwyr trethi a'r pechaduriaid yn nesáu at Iesu i wrando arno. Ond yr oedd y Phariseaid a'r ysgrifenyddion yn grwgnach ymhlith ei gilydd, gan ddweud, "Y mae hwn yn croesawu pechaduriaid ac yn cydfwyta gyda hwy." A dywedodd ef y ddameg hon wrthynt: "Bwriwch fod gan un ohonoch chwi gant o ddefaid, a digwydd iddo golli un ohonynt; onid yw'n gadael y naw deg a naw yn yr anialdir ac yn mynd ar ôl y ddafad golledig nes dod o hyd iddi? Wedi dod o hyd iddi y mae'n ei gosod ar ei ysgwyddau yn llawen, yn mynd adref, ac yn gwahodd ei gyfeillion a'i gymdogion ynghyd, gan ddweud wrthynt, 'Llawenhewch gyda mi, oherwydd yr wyf wedi cael hyd i'm dafad golledig.' Rwy'n dweud wrthych, yr un modd bydd mwy o lawenydd yn y nef am un pechadur sy'n edifarhau nag am naw deg a naw o rai cyfiawn nad oes arnynt angen edifeirwch. Neu bwriwch fod gan wraig ddeg darn arian, a digwydd iddi golli un darn; onid yw hi'n cynnau cannwyll ac yn ysgubo'r ty ac yn chwilio'n ddyfal nes dod o hyd iddo? Ac wedi dod o hyd iddo, y mae'n gwahodd ei chyfeillesau a'i chymdogion ynghyd, gan ddweud, 'Llawenhewch gyda mi, oherwydd yr wyf wedi cael hyd i'r darn arian a gollais.' Yr un modd, rwy'n dweud wrthych, y mae llawenydd ymhlith angylion Duw am un pechadur sy'n edifarhau."

Dyma Efengyl ein Gwaredwr.
**Moliant i ti, O Grist.**

**Luc 15:1-10**

Eisteddwn ar gychwyn y bregeth

## Pregeth yn y gyfres "I'r rhai pell a'r rhai agos"
### Cyflwyniad

Ar lwybrau ffydd, gobaith a chariad, fe'n gelwir i "waith yr enaid," wrth inni ganiatáu i addfwynder gras drawsnewid ein meddyliau, gan adnabod Duw o'n mewn, ym mêr ein hesgyrn. A rhaid inni hefyd edrych tuag allan, gan weld yr Ysbryd ar waith ym mywydau'r rhai o'n cwmpas, a dilyn yr Ysbryd i ddangos arwyddion Croes ac Atgyfodiad yn ein cymunedau a'n perthnasoedd. Bydd ein cyfres o bregethau'r tymor hwn – "I'r rhai pell a'r rhai agos" – yn archwilio pum ffordd y cawn ein galw i gael ein trawsnewid ac i drawsnewid ein byd yn enw Crist.

**Yr Is-Ddeon**

Ar derfyn y bregeth, codwn ar ein traed

## Credo

Ar y cyd, gadewch inni gadarnhau ein ffydd.

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,
a greodd bopeth sydd.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Fab Iesu Grist,
a brynodd ddynolryw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Ysbryd Glân,
sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,
✠ Dad, Mab ac Ysbryd Glân.
Amen.**

## Ymbiliau

Gyda'n holl galon a'n holl feddwl gweddïwn ar Dduw.

*Eisteddwn neu benliniwn*

Dduw Sanctaidd, gweddïwn dros yr Eglwys, a grëwyd er dy ogoniant. Gweddïwn dros Andrew ein Hesgob; dros bawb i'w hordeinio's adeg hon; dros weinidogaeth feunyddiol Eglwys y Groes a'n Cadeirlan; a thros bawb a ddaw'n bererinion dros y trothwy'r wythnos yma. Estyn i ni dy iachawdwriaeth a'th dwf.

℣ O Dduw, yn dy drugaredd,
℟ **Gwrando ein gweddi.**

Dduw Sanctaidd, gweddïwn dros y byd, a grëwyd gan dy gariad. Gweddïwn yn arbennig dros bobl Wcráin a Rwsia, a thros gyfiawnder a heddwch yn y gwledydd hynny. Estyn i ni dy dangnefedd a'th gariad gweddnewidiol.

℣ O Dduw, yn dy drugaredd,
℟ **Gwrando ein gweddi.**

Dduw Sanctaidd, gweddïwn dros dy holl bobl, wedi'u creu ar dy ddelw, ac yn enwedig dros yr unig, y galarus, a'r claf, ac, o'n cymuned ni, dros [...] . Anadla anadl einioes arnynt a dwg iddynt dy drugaredd a'th ras.

℣ O Dduw, yn dy drugaredd,
℟ **Gwrando ein gweddi.**

Dduw Sanctaidd, gweddïwn dros y rhai yr ydym yn eu caru ond na'u gwelwn mwyach. Gweddïwn dros y rhai sydd wedi marw yn ddiweddar, yn eu plith [...] ; a thros [...] y cedwir eu gŵyl goffa'r dyddiau hyn.

℣ Gorffwys tragwyddol dyro iddynt, O Dduw.
℟ **A llewyrched goleuni gwastadol arnynt.**
℣ ✠ Gorffwysed hwy mewn tangnefedd.
℟ **A chyfodi mewn gogoniant.**

Gan uno'n gweddi â gweddïau Mair Mam Duw, Pedr, Deiniol, Seiriol, Cadfan a holl Saint Enlli, cyd-weddïwn:

℣ Dad trugarog,
℟ **Derbyn y gweddïau hyn**
**er mwyn dy Fab, ein Gwaredwr Iesu Grist.**
**Amen.**

*Codwn ar ein traed, a gwneir Casgliad yn ystod yr emyn*

# Cymun

## Emyn



O Iesu, y ffordd ddigyfnewid
a gobaith pererin di-hedd,
O tyn ni yn gadarn hyd atat
i ymyl diogelwch dy wedd;
dilea ein serch at y llwybrau
a'n gwnaeth yn siomedig a blin,
ac arwain ein henaid i'th geisio,
y ffordd anghymharol ei rhin.

O Iesu'r gwirionedd anfeidrol,
tydi sydd yn haeddu mawrhad,
O gwared ni'n llwyr o'r anwiredd
sy'n gosod ar fywyd sarhad;
lladd ynom y blas at y geiriau
sy'n twyllo'r daearol ei fryd,
a derbyn ein moliant am olud
gwirionedd sy'n achub y byd.

O Iesu, y bywyd tragwyddol,
ffynhonnell y nerth sy'n parhau,
rho inni dy weld yn dy allu
yn gwneud i eneidiau fywhau;
mae ynot ddiderfyn rasusau
sy'n drech na gelyniaeth y byd:
moliannwn wrth gofio am fywyd
sy'n ras a thrugaredd i gyd.

**Geiriau**
William Rhys Nicholas (1914-1996)
**Cerddoriaeth | "Crugybar"**
Alaw Gymreig, o "Moliant Seion" (1883)

Parhawn ar ein traed tan y rhannwn y Tangnefedd

## Offrwm

Deuwn i'r fangre hon â'r bara sy'n gynhaliaeth.
**Fe ddaw inni'n fara'r bywyd.**

Deuwn i'r fangre hon â'r gwin sy'n mwyneiddio.
**Fe ddaw inni'n waed einioes y byd.**

## Gweddi Ewcharistaidd

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Dyrchefwch eich calonnau.
**Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.**

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.
**Iawn yw rhoi ein diolch a'n clod.**

Iawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd bob amser ac ym mhob lle, yw diolch i ti, Dad Sanctaidd, hollalluog a bythfywiol Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Llawenhawn fod y byd cyfan yn deml i ti, ac wedi ei alw i atseinio i'th enw. Yn y tŷ gweddi hwn fe'n gelwir i fod yn feini bywiol, yn deml heb fod o waith dwylo. Yn y lle hwn ceir rhaglun o ddirgelwch dy ddinas nefol di.

Felly, gyda llu'r angylion a holl gwmpeini'r nef, cyhoeddwn ogoniant dy enw ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawl:

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd, Duw gallu a nerth, nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant. Hosanna yn y goruchaf.

✠ Bendigedig yw'r hwn sy'n dod yn Enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf.

**Cerddoriaeth**
**Cymun Sant Dogfan**, Brian Evans

Parhawn ar ein traed

Pob moliant a diolch i ti, y gwir a'r bywiol Dduw, Crëwr pob peth, Rhoddwr bywyd. Lluniaist ni ar dy ddelw dy hun, ond yr ydym ni wedi difwyno'r ddelw honno a syrthio'n brin o'th ogoniant. Rhoddwn ddiolch i ti am anfon dy Fab i rannu ein bywyd ni; fe'i hildiaist i farwolaeth fel y câi'r byd ei achub, a'i atgyfodi oddi wrth y meirw fel y bo i ni fyw ynddo ef, ac yntau ynom ninnau.

Sancteiddia â'th Ysbryd y bara hwn a'r gwin hwn, dy roddion inni, fel y bônt i ni yn gorff a gwaed ein Hiachawdwr, Iesu Grist.

Y nos y bradychwyd ef, cymerodd fara ac, wedi rhoi diolch, fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud, Cymerwch, bwytewch; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch: gwnewch hyn er cof amdanaf. ✠

Yr un modd ar ôl swper cymerodd y cwpan, ac, wedi rhoi diolch, fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud, Yfwch o hwn bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed o'r cyfamod newydd a dywelltir drosoch a thros lawer er maddeuant pechodau: gwnewch hyn bob tro yr yfwch ef er cof amdanaf. ✠

Cyhoeddwn ddirgeledd y ffydd.

**Bu farw Crist.**
**Atgyfododd Crist.**
**Daw Crist mewn gogoniant.**

Fel y gorchmynnodd ef inni, O Dad, yr ydym yn cofio Iesu Grist, dy Fab. Gan gyhoeddi ei farwolaeth fuddugoliaethus, a chan ymlawenhau yn ei atgyfodiad, a disgwyl iddo ddod mewn gogoniant, deuwn â'r bara hwn a'r cwpan hwn i ti. Derbyn ein haberth o ddiolch a moliant.

Adfer ac adfywia dy holl bobl, adnewydda ni a phawb y gweddïwn trostynt â'th ras a'th ✠ fendith nefol a derbyn ni yn y diwedd gyda'th holl saint i'r llawenydd diderfyn hwnnw a addawyd inni gan dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist.

Trwyddo ef, gydag ef, ynddo ef, yn undod yr Ysbryd Glân, eiddot ti, Dad hollalluog, yw pob anrhydedd a gogoniant, yn oes oesoedd.
✠ **Amen.**

Parhawn ar ein traed

## Gweddi'r Arglwydd

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddïwn yn hyderus:

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.**

## Tangnefedd

Fe'n cysegrir â'th Ysbryd yn un Corff,
fel na fyddwn wasgaredig mwyach, ond yn deulu ar dy lun,
a'r agosatrwydd yn rhodd dy dangnefedd.

Tangnefedd y Bythol Dduw a fo gyda chwi bob amser.
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Rhannwn arwydd o Dangnefedd.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd; yna penliniwn neu eisteddwn

## Torri

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym.
Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym.
Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: dyro inni dangnefedd.

**Cerddoriaeth**
**Cymun Sant Dogfan**, Brian Evans

## Cymuno

✠ Iesu yw Oen Duw sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd.
Gwyn eu byd y rhai a elwir i'w swper.
**Waredwr, nid wyf yn deilwng i'th dderbyn,**
**ond dywed y gair a chaf fy iacháu.**

Deuwn i Gymuno, gan ddilyn cyfarwyddyd y Stiwardiaid, o'r Afrlladen Sagrafennol ac, os y dymunwn, o'r Gwerthfawr Waed

## Motét

Yr Arglwydd yw fy mugail, ni’m gâd mewn rhaid. Fe bair ef i mi orwedd mews glas ddolydd: fe’m tywys i gerllaw y claer ddyfroedd; mae’n adferyd fy nerth: fe’m harwain i hyd ei lwybrau cyfiawn ef er mwyn ei enw. Er i mi fynd trwy y dyffryn a chysgodion y bedd, ni fydd ofn un niwed. Rywt ti gyda mi; dy wialen a’th ffon rydd gysur im. Fe ddarperi di fwrdd o’m blaen i gerbron wyneb fy ngelynion lu. Rhoddi olew i iro’m pen, a’m cwpan sydd orlawn. Bydd daioni a chariad yn dilyn o’m hôl holl ddyddiau f’oes ac fe breswyliaf yn nhŷ fy Nuw byth bythoedd. Boed gogoniant i’n Harglwydd, ac i’w Fab ac i’r Ysbryd Glân. Fel yr oedd yn y dechreuad, y mae, ac y bydd hyd byth, heb ddiwedd mwy, Amen.

**Geiriau**
Salm 23
**Cerddoriaeth**
Dilys Elwyn-Edwards (1818-2012)

Ar ôl i bawb Gymuno, safwn i ganu’r emyn

## Emyn



**Dan dy fendith wrth ymadael
y dymunem, Arglwydd, fod;
llanw’n calon ni â’th gariad
a’n geneuau ni â’th glod:
dy dangnefedd, dy dangnefedd, dy dangnefedd
dyro inni yn barhaus.**

**Am Efengyl gras a'i breintiau**
**rhoddwn ddiolch byth i ti;**
**boed i waith dy Ysbryd Sanctaidd**
**lwyddo fwyfwy ynom ni;**
**i'r gwirionedd, i'r gwirionedd, i'r gwirionedd**
**gwna ni'n ffyddlon tra bôm byw.**

**Geiriau**
John Fawcett (1740-1817)
**Cyfieithiad**
William Griffiths (1777-1825)
**Cerddoriaeth | "Caersalem"**
Robert Edwards (1796-1862)

Parhawn ar ein traed

# *Ymadael*

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Bydded i gariad Crist Iesu eich dwyn ato'i hun; bydded i'w rym eich cynnal yn ei wasanaeth, a'i orfoledd lenwi'ch calon; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân, a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.
**Amen.**

Awn ymaith mewn tangnefedd.
**Yn Enw Crist. Amen.**

Parhawn ar ein traed hyd nes i'r gweinidogion ymadael; yna eisteddwn neu ymadael

**Offrymddarn ar yr organ**
**Ymdeithgan yn D**, Henry Smart (1813-1879)

St John Ambulance Cymru

Gwneir casgliad wrth ymadael i gefnogi gwaith a chenhadaeth Ambiwlans St John Cymru, a hithau'n benwythnos codi arian yr elusen

# Hysbys

## Sul Gwaddol Ganol Haf

Ar y Sul Gwaddol Ganol Haf hwn cawn gyfle i ddathlu ein bywyd ar y cyd, i nodi diwedd ein blwyddyn gorawl wrth i ni ffarwelio â rhai o'n Coryddion ac Ysgolheigion y Gân, i godi arian ar gyfer Ambiwlans St John Cymru yn ystod eu penwythnos codi arian cenedlaethol, ac i lansio urdd Cyd-Bererinion Cadeirlan Deiniol Sant fel cymuned o'r rhai o bell ac agos sydd am gefnogi bywyd, cerddoriaeth a thystiolaethu'r Gadeirlan.

Yn ogystal â'n Cymun Bendigaid rheolaidd ar fore Sul, cynhelir cinio bwffe yng Ngardd y Deondy, dan ofal yr Is-Ddeon, a gwahoddir pawb yn gynnes iawn i'w fynychu.

Am 2.00pm, bydd Harry Sullivan, Ysgolhaig yr Organ, yn canu'r organ yn ei ddatganiad olaf cyn iddo ymadael â'r Gadeirlan. Bydd ei ddatganiad yn cynnwys gweithiau ar gyfer yr organ wedi'u hysbrydoli gan gerddoriaeth cerddorfaol, gan gynnwys *Rhagarweiniad, Passacaglia a Ffiwg* gan Healey Willan.

Gyda'r hwyr, am 6.00pm, bydd ein Cyngerdd Dewch i Ganu Ganol Haf yn gyfle i leisiau ychwanegol ymuno â Chôr y Gadeirlan i ganu *Gloria* Vivaldi, a *Rejoice in the Lamb* gan Britten. Dylai cantorion sydd am ymuno â'r Côr ymuno â'r ymarfer yn y Gadeirlan am 3.00pm; darperir sgorau o'r gerddoriaeth, gyda ffi canu'n £10. Mae mynediad i'r Cyngerdd Dewch i Ganu Ganol Haf yn £5, gyda phlant am ddim. Dilynir y cyngerdd gan Dderbyniad Gwin i gantorion a'r gynulleidfa yng Ngardd y Deondy.

## Ambiwlans St John Cymru

Ym mhob un o'n digwyddiadau y Sul Gwaddol Ganol Haf hwn, rydym yn codi arian ar gyfer Ambiwlans St John Cymru, a hithau'n benwythnos codi arian iddyn nhw. Ambiwlans St John Cymru yw prif elusen cymorth cyntaf Cymru, fu'n cefnogi cymunedau Cymru ers dros 100 mlynedd. Gyda mwy na 4,000 o wirfoddolwyr mae'r elusen yn gofalu am dros 9,000 o bobl bob blwyddyn ac mae wedi bod yn bresennol yn ystod rhai o ddyddiau mwyaf heriol a llawen Cymru. Mae Ambiwlans St John Cymru yn darparu triniaeth a hyfforddiant cymorth cyntaf, ac yn gweithio ochr yn ochr â gwasanaethau brys eraill i ddarparu cymorth hanfodol lle bo angen. Maent hefyd yn darparu rhaglenni addysgol a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau i bobl ifanc ac mae dros hanner y gwirfoddolwyr o dan 18 oed, gyda llawer yn aml yn dilyn gyrfaoedd fel gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae Ambiwlans St John Cymru yn rhan o St John International, elusen ddyngarol fyd-eang sy'n hybu iechyd a gwytnwch corfforol, meddyliol ac ysbrydol mewn 44 o wledydd, ac mae'n cynnal Ysbyty Llygaid arbenigol yng Nghaersalem sy'n darparu gofal llygaid arbenigol i ranbarthau'r Lan Orllewinol, Gaza a Dwyrain Caersalem. Ystyriwch wneud cyfraniad i gefnogi Ambiwlans St John Cymru yng nghefn y Gadeirlan wrth i chi adael, neu yn y babell fawr dros ginio.

## Canon Tracy Jones

Mae'n bleser mawr gennym ddathlu'r Sul yma ddeng mlynedd ers ordeinio'r Canon Tracy Jones i'r offeiriadaeth. Bydd cyfle dros ginio i ddiolch i'r Fam Tracy am bopeth y mae'n ei gyfrannu

i fywyd ein Cadeirlan a Bro Deiniol.

**Datganiadau Paned**
Pob dydd Iau
11.15am am 45 munud
Paned a chacen o 10.45am

**29 Mehefin | Ysgolheigion Cerdd y Gadeirlan**

**6 Gorffenaf | Pedwarawd Sielo Gwynedd**

**13 Gorffenaf | Yingjie Hui |** Clarinét

**20 Gorffenaf | Pedwarawd y Fenai |** Pedwarawd Llinynnol

# *Yr wythnos*

## Heddiw | Today

**2.00pm** Datganiad | Recital

**6.00pm** Cyngerdd Dewch i Ganu Ganol Haf | Midsummer Come & Sing Concert

Gloria, Vivaldi; Rejoice in the Lamb, Britten

## Dydd Llun | Monday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

## Dydd Mawrth | Tuesday

**9.00am** Camau Bach

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

## Dydd Mercher | Wednesday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## 29 Mehefin | Dygwyl Pedr June | Saint Peter's Day

**11.15am** Datganiad | Recital

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**2.00pm | Eglwys y Groes** Cymun | Eucharist

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

## Dydd Gwener | Friday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## Dydd Sadwrn | Saturday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## 2 Gorffenaf | Y Pedwerydd Sul wedi'r Drindod 2 July | The Fourth Sunday after Trinity

**8.15am** Holy Eucharist

**9.15am** Cymun Bendigaid ar Gân

Offeren Fer y Capel Brenhinol, Caesar; O Dduw rhanna'th fendithion, Rutter

**11.00am** Choral Holy Eucharist

Missa Brevis, Berkeley; Set me as a seal, Walton

**3.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses, Rose; Gwasanaeth Hwyrol Cyntaf | First Evening Service, Cooper; Emyn y Hwyr | Evening Hymn, Balfour Gardiner

# *Ein gweddi*

**Yn glâf** Joy Levine, offeiriad; John Watkin Jones; Francis, esgob; William Lovelock; Tony; Valerie; Mark; Kathryn; Joan Wynne; Giuseppina de Giovanni; Ross Ingram; Sienna Halls

**A fu farw'n ddiweddar** Michael Roberts; Freddy Riley; Katherine Guy; David Silcock

**Gŵyl goffa** John Hughes, offeiriad (29); Anthony Crockett, esgob (30); Trevor Evans, offeiriad (30)

## Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

## Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff cynifer o'n gwasanaethau'n eu ffrydio ar Facebook, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar dudalen Facebook y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

## Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys rhannau o'r **Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaid 2004** hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2004 Mae'r llithoedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr** (1850) a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary** (2019).

# *Cefnogaeth*

**Caiff y fangre sanctaidd hon llawn ffydd, gobaith a chariad, a phopeth sy'n digwydd yma, ei chynnal gan eich haelioni chi.**

1 I roi rhodd ar-lein ar eich ffôn heddiw, sganiwch y cod QR isod.

2 Defnyddiwch ein peiriant rhoi digyswllt yng nghefn Corff yr Eglwys i dapio cerdyn neu ffôn.

**Trwy roi rhodd, byddwch yn ein helpu i barhau â'n gwaith hanfodol.**

## Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol Deiniol Sant ym Mangor
## The Cathedral & Metropolitical Church of Saint Deiniol in Bangor

Esgob ac Archesgob Cymru
**Y Parchedicaf Andrew T. G. John**
Bishop & Archbishop of Wales
**The Most Revd Andrew T. G. John**

Is-Ddeon | Sub-Dean
**Canon Siôn B. E. Rhys Evans**
sionrhysevans@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon dros Fywyd Cynulleidfaol
Canon for Congregational Life
**Canon Tracy Jones**
tracyjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cyfarwyddwr Cerdd | Director of Music
**Joe Cooper**
joecooper@eglwysyngnghymru.org.uk

Organydd | Organist
**Martin Brown**
martinbrown@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinidog Teulu | Family Minister
**Naomi Wood**
naomiwood@eglwysyngnghymru.org.uk

Clerc y Cabidwl | Chapter Clerk
**Robert Jones**
robertjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cwstos | Custos
**Simon Taylor**
simontaylor@eglwysyngnghymru.org.uk

Trysorydd | Treasurer
**Kelly Edwards**
kellyedwards@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinyddwr Litwrgi | Liturgy Administrator
**Sam Jones**
samjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Rheolwr Prosiect Cadwraeth a Datblygu
Conservation & Development Project Manager
**Simon Ogdon**
simonogdon@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Secundus
**Canon David Thomas Morris**
davidmorris@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Emeritws | Canon Emeritus
**Canon Angela Williams**

Aelodau o Goleg Offeiriadol y Gadeirlan
Members of the Cathedral's College of Priests
**Y Parchg Ddr | The Revd Dr John Prysor- Jones, y Tra Pharchg Athro | the Very Revd Prof. Gordon McPhate, y Parchg | the Revd Peter Kaye**

Darllenydd | Reader
**Elma Taylor**

Pensaer y Gadeirlan | Cathedral Architect
**Simon Malam**

Rhif elusen | Charity number 1158340